



Department  
for Transport

Corff Cyhoeddus



Rôl: Dirprwy Gadeirydd ac Aelodau

Dyddiad: Mis Chwefror 2023





## Cynnwys

|                                                                                     |                                     |
|-------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------|
| <b>Llythyr Croeso gan Mark Harper, Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth .....</b> | <b>3</b>                            |
| <b>Llythyr Croeso gan Ron Barclay-Smith, Cadeirydd BTPA .....</b>                   | <b>5</b>                            |
| <b>Swyddi gwag .....</b>                                                            | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| <b>Ynglŷn ag Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig .....</b>                       | <b>7</b>                            |
| <b>Ynglŷn â'r Rôl: Dirprwy Gadeirydd .....</b>                                      | <b>13</b>                           |
| <b>Ynglŷn â'r Rôl: Aelod .....</b>                                                  | <b>14</b>                           |
| <b>Sut i Wneud Cais .....</b>                                                       | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| <b>Amserlen Awgrymedig .....</b>                                                    | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| <b>Proses Ddethol .....</b>                                                         | <b>18</b>                           |
| <b>Gwybodaeth Ychwanegol .....</b>                                                  | <b>19</b>                           |
| <b>Atodiad A: Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus .....</b>                              | <b>25</b>                           |



## Llythyr Croeso gan Mark Harper, Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb mewn dod yn Aelod Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTPA) sy'n asiantaeth weithredol o'r Adran Drafnidiaeth.

Dyma gyfnod pwysig i'r Adran Drafnidiaeth. Rydym yn buddsoddi'n fawr mewn isadeiledd a thrafnidiaeth gyhoeddus i wella teithiau, cynyddu cysylltiadau, ffynnu'r wlad a chefnogi twf economaidd. Beth sy'n ganolog i'n cenhadaeth ni yw darparu trafndiaeth sy'n gweithio i bawb yn ein cymdeithas.

Rydym yn recriwtio ar gyfer Dirprwy Gadeirydd, Aelod newydd o'r Alban, Aelod newydd o Gymru a hyd at bedwar Aelod arall sydd naill ai â gwybodaeth a phrofiad o'r rhai sy'n darparu gwasanaethau trenau, yn gweithio ar y rheilffyrdd, a/neu fuddion rhai sy'n teithio ar drenau.

Mae BTPA yn gyfrifol am sicrhau heddlu effeithlon ac effeithiol i weithredwyr trenau, eu staff a'u teithwyr. Mae ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau yn debyg i rai Awdurdod Heddlu'r Alban neu gomisiynydd heddlu a throseddu yng Nghymru a Lloegr, ond mae'n goruchwyllo llw sy'n gyfrifol am blismona ardal llawer ehangach – rheilffyrdd Prydain Fawr. Felly, mae rôl BTPA yn hanfodol i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio ar ein rheilffyrdd - gan helpu i gefnogi Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i fynd i'r afael â throseddu a sicrhau lefelau uchel o hyder ymysg teithwyr, yn ogystal â sicrhau gwerth am arian gan Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Rydym yn chwilio am chwaraewr tîm brwdfrydig sy'n gallu rhoi arweiniad strategol mewn cyd-destun Bwrdd - ac sy'n gallu cefnogi a herio mewn ffordd adeiladol. Bydd yr ymgeiswr llwyddiannus yn gallu gweld y darlun mawr tra'n cydnabod buddiannau ystod eang o randdeiliaid, a bydd ganddyn nhw sgiliau cryf a eang, gan gynnwys sgiliau sy'n ymwneud â strategaeth a rheoli perfformiad.

Rydym yn croesawu'n gryf geisiadau gan bobl o bob cefndir. Fel rhan o ymrwymiad yr Adran at amrywiaeth, credwn y dylai ein hapwyntiadau cyhoeddus adlewyrchu ein cwsmeriaid - y cyhoedd sy'n teithio - sy'n dod o bob cefndir ac sydd â phrofiadau gwahanol. Rydym yn croesawu talent, arbenigedd, a safbwyntiau newydd, i'n helpu i ddeall anghenion y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu a'n cefnogi i wneud penderfyniadau gwell i bawb. Mae hyn yn cynnwys pobl a allai erioed fod wedi gwneud cais am apwyntiad cyhoeddus - ond a allai ddod â syniadau, profiadau ac egni newydd.



## Department for Transport

Os oes gennych ddiddordeb yn rôl a gwaith BTPA, hoffwn eich annog i ymgeisio. Mae manylion llawn am gyfrifoldebau y swydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.

Byddai ein Tîm Penodiadau Cyhoeddus yr Adran Drafnidiaeth yn hapus i siarad â chi am y broses ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

### **Y Gwir Anrh Mark Harper AS** **Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth**





## Llythyr Croeso gan Ron Barclay-Smith, Cadeirydd BTPA

Diolch am eich diddordeb mewn dod yn Aelod Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTPA). Dyma gyfle cyffrous i ymuno â bwrdd goruchwylio annibynnol gwasanaeth cenedlaethol yr heddlu sy'n cadw rhwydwaith rheilffyrdd Prydain yn ddiogel. Fel gwasanaeth arbenigol ac ymroddedig yr heddlu ar gyfer rheilffyrdd Prydain, mae gwaith BTP yn eang, gan ddarparu gwasanaeth pwysig i'r holl weithredwyr teithwyr a chludo nwyddau, Network Rail, eu staff a'u cwsmeriaid ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, yn ogystal â phlismona'r Rheilffordd Danddaearol Llundain, Rheilffordd Ysgafn ardal y Dociau, System Tram Metro Midland, Tramlink Croydon, Metro Sunderland a rheilffordd danddaearol Glasgow.

BTPA sy'n bennaf gyfrifol am godi tâl ar weithredwyr trenau ar gyfer plismona'r rheilffyrdd ac felly mae'n rhaid sicrhau gwerth am arian i'w noddwyr. Er mwyn cyflawni hyn, mae BTP, a gefnogir gan BTPA, wedi cychwyn rhaglen drawsnewid a fydd yn darparu ffyrdd newydd o weithio, gan fanteisio ar y defnydd o dechnoleg ddigidol i ragweld yn well lle mae angen recriwtio staff, gan ddadansoddi llwyddiant ei weithredoedd a'i ymyriadau, a galluogi swyddogion i dreulio mwy o amser allan ar batrôl yn gweithio'n effeithiol ac yn gynhyrchiol lle mae'n fwyaf pwysig.

Mae'r BTPA, fel corff goruchwylio'r mwyaf o'r tri llu sefydliad cenedlaethol, hefyd mewn sefyllfa dda i gyfrannu at y sgwrs genedlaethol ynghylch plismona, ac er mwyn hyrwyddo'r nod hwn mae'n gweithio'n agos gyda'r Adran Drafnidiaeth, y Swyddfa Gartref, Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a chyrrff a sefydliadau goruchwylio plismona eraill. Fodd bynnag, mae'r ystod o randdeiliaid BTPA yn llawer ehangach na hyn a bydd angen ar aelodau hefyd i ymgysylltu â noddwyr yn y diwydiant rheilffyrdd, grwpiau teithwyr, y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban a llawer mwy. Noddwyr mwyaf BTPA yw Network Rail a Thrafnidiaeth Llundain sydd ar hyn o bryd yn ffurfio dau bartner allweddol yn y diwydiant rheilffyrdd.

Mae'n hanfodol bod BTPA a BTP yn gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer y rheilffyrdd yn ein gwahanol rolau gydag ymddiriedaeth, gonestrwydd a thryloywder wrth wraidd ein perthynas. Ar yr un pryd, rhaid i'r Aelodau fod yn barod i ofyn cwestiynau heriol a chyflawni rôl ffrind beirniadol, gan sicrhau dadl gytbwys ac iach i sicrhau'r canlyniadau gorau.

Rydym bellach yn chwilio am hyd at saith Aelod newydd sy'n gallu addasu a dylanwadu ar newid strategol, sydd â sgiliau cyfathrebu rhagorol gyda chraffter gwleidyddol a masnachol a chywirdeb personol uchel. Byddem wir yn croesawu derbyn ceisiadau gan ymgeiswyr o ystod amrywiol o gefndiroedd a safbwyntiau – sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y mae'r BTP yn eu gwasanaethu ac yn helpu i sicrhau effeithiolrwydd yr Awdurdod. Mae cefnogi amrywiaeth ac ystod eang o safbwyntiau o fewn yr Awdurdod o bwysigrwydd arbennig personol i mi fel Cadeirydd.



## Department for Transport

Yn olaf, dyma gyfle i weithio gyda grŵp rhagorol o bobl yn yr Heddlu a'r Awdurdod, a bod yn Aelod o Awdurdod sydd ag ysbryd tîm eithriadol ac sy'n glir am yr angen i graffu a chefnogi heddlu proffesiynol iawn.

Gobeithio y byddwch yn cael eich ysbrydoli gan y cyfle cyffrous hwn i fod ar flaen y gad o ran darparu gwasanaeth heddlu cenedlaethol, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddiogelu seilwaith rheilffyrdd critigol Prydain Mawr a'r rhai sy'n gweithio ac yn teithio ar y rheilffyrdd. Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, byddwn yn eich annog i gysylltu â Raquel Cortes yn yr Awdurdod i drefnu sgwrs anffurfiol gyda mi. Byddaf hefyd yn cynnal Gweminar gyda mwy o wybodaeth am y rolau yn ystod yr wythnosau nesaf - bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu ar Wefan BTPA yn fuan iawn.

**Ron Barclay-Smith**  
**Cadeirydd BTPA**



## Swyddi gwag

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth am benodi **Dirprwy Gadeirydd, Aelod o'r Alban, Aelod o Gymru a hyd at bedwar aelod arall** o Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Mae hyn yn cynnwys penodi'r rolau penodol canlynol:

- Dirprwy Gadeirydd.
- Aelod sydd â gwybodaeth am fuddiannau personau yn yr Alban a benodwyd mewn ymgynghoriad â Gweinidogion yr Alban – *bydd yr unigolyn hwn yn cadeirio Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban, sef is-bwyllgor BTPA.*
- Aelod sydd â gwybodaeth am fuddiannau personau yng Nghymru a benodwyd mewn ymgynghoriad â Gweinidogion Cymru.
- Hyd at bedwar Aelod arall sydd â gwybodaeth a phrofiad o unrhyw un o'r canlynol:
  1. Y cwmnïau sy'n gweithredu'r trenau a'r traciau;
  2. Y staff sy'n gweithio i'r gweithredwyr hynny;
  3. Y teithwyr sy'n teithio ar y rheilffordd; neu
  4. Plismona.

Rydym yn annog ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n gallu cynnig profiad ehangach gyda sgiliau addas gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Gwybodaeth a phrofiad o
  - problemau ariannol
  - pensiynau;
  - rheoli risg;
  - technoleg/gwaith digidol;
  - achosion busnes.

## Ynglŷn ag Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Sefydlwyd BTPA gan Ddeddf Rheilffyrdd a Diogelwch Trafnidiaeth 2003 (y Ddeddf) fel corff goruchwyllo annibynnol ar gyfer Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP). Mae'r Ddeddf yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth benodi rhwng un deg un ac un deg saith Aelod i'r BTPA. Mae hyn yn cynnwys y Cadeirydd (Ron Barclay-Smith) a Dirprwy Gadeirydd.

Mae'r BTPA yn awdurdod cyhoeddus trawsffiniol sy'n golygu bod yn rhaid ymgynghori â Llywodraeth yr Alban ynghylch apwyntiadau i'r BTPA.

Ar hyn o bryd mae'r BTPA yn cynnwys 11 o Aelodau gan gynnwys Aelodau sydd â gwybodaeth benodol am fuddiannau personau yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Cyfrifoldebau pwysig y BTPA yw gosod strategaeth, cynlluniau plismona a chyllideb ar gyfer BTP; i wneud uwch benodiadau ac i sicrhau bod y Prif Gwnstabl â





## Department for Transport

chyfrifoldeb am rhain. Mae'r rolau hyn yn hanfodol i sicrhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaeth cyhoeddus pwysig. Gweler isod trosolwg o ddyletswyddau sylfaenol BTPA.

**Gosod strategaeth BTP:** Mae'r BTPA yn gyfrifol am osod amcanion ar gyfer BTP cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r BTPA yn cyhoeddi'r amcanion hyn, yn ogystal â'i gyfeiriad strategol a'i adolygiad perfformiad o BTP drwy nifer o gyhoeddiadau:

- Mae'r [Cynllun Strategol](#) yn nodi strategaethau tymor canolig a hirdymor BTPA ar gyfer plismona'r rheilffyrdd. Mae'r strategaeth bresennol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022 yn cynnwys cyfnod 2022-27 a bydd yn gweld newidiadau hirdymor i siwrneiau teithwyr a ffyrdd newydd o weithio sydd wedi eu dylanwadu gan y pandemig, y camau cyntaf yn rhaglen uchelgeisiol y Llywodraeth o ddiwygio'r rheilffyrdd, cynnydd mewn traffig cludo nwyddau, a darparu gwasanaethau newydd. Bydd yr holl ffactorau hyn yn dylanwadu ar alw am ein gwasanaethau plismona, sut i gael mynediad at y gwasanaethau hynny, sut rydym yn darparu'r gwasanaethau hynny a'r partneriaethau sy'n eu helpu i gyflawni llwyddiant.
- Mae [Cynllun Plismona](#) BTP yn cynnwys blaenoriaethau BTPA am y flwyddyn, yr adnoddau ariannol disgwylidig a sut mae'n cynnig dyrannu'r adnoddau hynny.
- Yn olaf, yr [Adroddiad Blynnyddol](#), a gyhoeddir ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ac sy'n ymdrin â phlismona'r rheilffyrdd yn y flwyddyn honno.

**Nawdd a chyllideb BTP:** BTPA sy'n penderfynu cyllideb BTP - a oedd yn arfer cael ei gyfeirio ato fel Cronfa BTP. Mae'n chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod BTP yn gyfrifol am sicrhau bod y cyllideb yn cael ei gwario'n effeithlon ac effeithiol. Yn benodol, mae ganddo rôl bwysig wrth sicrhau bod y rhaglen effeithlonrwydd ar gyfer BTP yn cael ei darparu, gan helpu i sicrhau gwell gwerth am arian i drethdalwyr a rhanddeiliaid.





## Department for Transport



*Cyn-aelod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch ymgysylltu a'r cyhoedd gyda swyddogion*

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** Mae hyn yn sicrhau bod rhanddeiliaid, yn arbennig y diwydiant rheilffyrdd sy'n talu am blismona'r rheilffordd, yn gallu cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu'r Cynllun Strategol a'r Cynllun Plismona blyneddol. Mae ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid yn hanfodol ar gyfer BTPA. Mae'r ymgysylltu hwnnw'n cynnwys gwrando ar ddeiliaid masnachfaint yn ogystal â'u cyrff cynrychioliadol, megis Partneriaid Rheilffyrdd (arfer bod yn Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd yn flaenorol).

**Cytundebau Gwasanaethau Heddlu:** Mae BTPA yn ymrwmo i gytundebau gyda chwmnïau trenau, cludo nwyddau a chwmnïau gweithredu ac isadeiledd eraill er mwyn darparu gwasanaeth plismona i'w rheilffordd neu eiddo rheilffordd. Mae'r cytundebau hyn, y cyfeirir atynt fel Cytundebau Gwasanaethau Heddlu (PSAs), hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwmnïau wneud taliadau am y gwasanaeth. Pan, er enghraifft, dyfernir masnachfaint rheilffordd newydd gan yr Adran Drafnidiaeth (neu gan Weinidogion yr Alban neu Gymru), fel arfer mae'n ofynnol i'r cwmni buddugol ymrwmo i PSA newydd gyda BTPA.

**Cytundebau Brys:** Os bydd angen darpariaeth ariannol frys, gall yr Adran Drafnidiaeth ddarparu grantiau unigol i'r Awdurdod ar gyfer dibenion penodol (wedi'i neilltuo) yn unol â'r cytundeb Fframwaith. Bydd yr Awdurdod yn darparu tystiolaeth bod y grant wedi'i ddefnyddio at ddibenion a awdurdodwyd gan yr Adran Drafnidiaeth. Ni fydd gan yr Awdurdod arian grant heb ei hepgor ar y gweill, nac yn trosglwyddo arian grant penodol i flwyddyn ariannol arall.

**Monitro Perfformiad:** Mae aelodau BTPA yn darparu goruchwyliaeth a chraffu ar berfformiad BTP yn ystod y flwyddyn, gan helpu i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth effeithiol i ddefnyddwyr y rheilffordd, staff a'r rheilffordd yn gyffredinol. Mae ffocws BTPA ar gyfreithlondeb sy'n darparu goruchwyliaeth o'r agweddau hynny ar blismona sy'n effeithio ar ymddiriedaeth y cyhoedd yng ngwasanaeth yr heddlu y fwyaf gan gynnwys proffesiynoldeb, defnydd o rym, pwerau stopio a chwilio a chadw.



## Department for Transport

**Penodiadau:** Y BTPA sy'n gyfrifol am recriwtio swyddi gwag uwch yn y BTP gan gynnwys y Prif Gwnstabl ac aelodau o Grŵp Prif Swyddogion y Llu. Mae BTPA hefyd yn gyflogwr i holl swyddogion ac aelodau o staff BTP.

**Rheoleiddio BTP:** Fel yn achos lluoedd y Swyddfa Gartref yng Nghymru a Lloegr, y cyhoeddir rheoliadau ar eu cyfer o dan adran 50-52 o Ddeddf yr Heddlu 1996, mae'r BTPA yn gallu cyhoeddi rheoliadau ar gyfer BTP fel y disgrifiwyd gan Ddeddf Rheilffyrdd a Diogelwch Trafnidiaeth 2003.

**Goruchwylio blaenoriaethau ehangach;** gan gynnwys trafodaethau pellach ynghylch datganoli swyddogaethau BTP yn yr Alban, ac unrhyw oblygiadau i'r BTP yn sgil gwella'r rheilffyrdd.



*Cyn-aelod Cymreig yn gweithio gydag Uwch-arolygydd Cymru.*

**Y Tîm Gweithredol:** Mae'r BTPA yn cael ei gefnogi gan dîm gweithredol bach dan arweiniad Prif Weithredwr sy'n Swyddog Cyfrifyddu Cronfa BTP.

**Rôl Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP):** Mae gwaith BTP yn gymhleth, yn amlweddog ac yn hanfodol bwysig, gan gynnwys pob maes plismona o blismona cymunedol hyd at ymateb arfog a gwrthderfysgaeth. Wrth gyflawni ei ddiben statudol i ddarparu plismona effeithlon ac effeithiol ar gyfer rheilffyrdd yng Nghymru, Lloegr



## Department for Transport

a'r Alban, mae BTP hefyd yn chwarae rhan hanfodol bwysig wrth fynd i'r afael a lleihau'r aflonyddwch a achosir gan ddigwyddiadau ar y rheilffordd, gan fynd i'r afael â throseddau treisgar, gwrthsefyll bygythiad terfysgol a diogelu seilwaith rheilffyrdd pwysig Prydain Fawr a'r rhai sy'n gweithio ac yn teithio arno. Mae gan BTP rôl sylweddol o ran adnabod a helpu pobl mewn argyfwng, y rhai sy'n agored i niwed neu sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio ac ymateb i risgiau unigryw'r rheilffordd yn y cyd-destun hwn. Mae'r dasg sylweddol hon, sy'n rhychwantu 10,000 milltir o drac a mwy na 3,000 o orsafoedd rheilffordd, yn dibynnu ar waith caled, ymroddiad a phrofiad swyddogion a staff sifil, sydd wedi'u lleoli mewn Pencadlys yn Llundain, Glasgow a Birmingham ac a ddosbarthodd ar draws Prydain Fawr.

Mae BTP yn unigryw mewn sawl ffordd, yn enwedig o ran lleoliad y mae'n gweithredu ynddo. Gan weithio ar draws tair o'r pedair gwlad gartref, mae'n hanfodol bod BTP yn gweithio mewn partneriaeth agos ag eraill yn yr heddlu ar draws Prydain Fawr, i ddarparu gwasanaeth ymatebol a chydgyssylltiedig i deithwyr, staff rheilffyrdd ac eraill sy'n gweithio ar y rheilffordd neu'n byw ger y rheilffordd. Mae BTP yn cael ei ariannu'n sylweddol gan gwmnïau trenau yn ogystal â Network Rail a Thrafnidiaeth Llundain, a rhaid iddo weithredu'n effeithlon, i ddarparu gwasanaeth ymatebol o ansawdd uchel ar draws rhwydwaith sy'n tyfu ar gost sy'n darparu gwerth amlwg am arian i gyllidwyr.

Mae BTP wedi ymrwymo i weithio'n effeithlon, mewn partneriaeth â BTPA, ac mae wedi lansio rhaglen drawsnewid uchelgeisiol i sicrhau arbedion sylweddol erbyn 2027. Mae'r rhaglen drawsnewid yn cynnwys nifer o fentrau i weithredu ffyrdd newydd o weithio ar gyfer deallusrwydd, cyfiawnder a diogelu'r cyhoedd, gan gydnabod mai pobl BTP yw ei gryfder mwyaf. Y tu hwnt i hyn, mae BTP yn uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol ac, fel un o ychydig o gyrff plismona sy'n croesi ffiniau sirol, mae mewn sefyllfa dda i gyfrannu'n llawn at yr agenda plismona cenedlaethol.

Ar hyn o bryd mae gan BTP gyllideb gyffredinol o tua £350m, gyda thua 5000 o weithwyr yn cynnwys swyddogion, PCSOs, staff, yn ogystal â chwnstablaid gwirfoddol.



Department  
for Transport







## Ynglŷn â'r Rôl: Dirprwy Gadeirydd

**Teitl:** Dirprwy Gadeirydd

**Yn atebol i:** Cadeirydd BTPA

**Hyd:** Tymor cychwynnol o hyd at 4 blynedd, gyda'r posibilrwydd o ailbenodiad

**Cydnabyddiaeth ariannol:** £25 mil y flwyddyn am bresenoldeb 50 diwrnod

Mae gan y Dirprwy Gadeirydd a'r Aelod yr un rôl ond bod gan y Dirprwy Gadeirydd gyfrifoldeb ychwanegol i ddirprwyo am y Gadair pan fydd angen, ac i gynorthwyo'r Gadair wrth gyflawni eu rôl. Gweler isod prif gyfrifoldebau'r Cadeirydd:

- Darparu arweinyddiaeth effeithiol a strategol i'r Awdurdod i sicrhau:
  - bod strategaeth yr Awdurdod yn cael ei llunio;
  - bod yr Awdurdod yn ystyried yn llawn y canllawiau a ddarperir gan y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb neu'r Adran;
  - bod defnydd effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau yn cael eu hyrwyddo;
  - bod safonau uchel o gysondeb a gweddustia yn cael eu darparu; a
  - bod barn yr Awdurdod yn cael ei chynrychioli i'r cyhoedd.
- Gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr, sicrhau bod holl Aelodau'r Awdurdod, wrth ymgymryd â'r swydd, yn cael pob wybodaeth am delerau eu hapwyntiad, a'u dyletswyddau, hawliau a'u cyfrifoldebau.
- Cynnal gwerthusiad blynyddol gyda phob Aelod o'r Awdurdod i gydlynu gwerthusiad effeithiolrwydd i'r bwrdd ac i'w ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer adroddiad y Cadeirydd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ailbenodiadau'r Aelodau.
- Dadansoddi anghenion datblygu'r Awdurdod yn gyffredinol gyda'r bwriad o wella ei effeithiolrwydd.
- Bydd y Prif Gwnstabl a'r Prif Weithredwr yn gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd i sicrhau bod rôl a chyfrifoldebau'r Awdurdod yn cael eu cyflawni.

Gweler Rôl yr Aelod am restr llawn o gyfrifoldebau a meini prawf hanfodol.



## Ynglŷn â'r Rôl: Aelodau

|                                 |                                                                        |
|---------------------------------|------------------------------------------------------------------------|
| <b>Teitl:</b>                   | Aelod                                                                  |
| <b>Yn atebol i:</b>             | Cadeirydd BTPA                                                         |
| <b>Hyd:</b>                     | Tymor cychwynnol o hyd at 4 blynedd, gyda'r posibilrwydd o ailbenodiad |
| <b>Cydnabyddiaeth ariannol:</b> | £15 mil y flwyddyn am bresenoldeb 30 diwrnod                           |

Mae aelodau'r BTPA yn chwarae rhan weithredol wrth weithio tuag at sicrhau bod gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon yn cael ei ddarparu ar gyfer y rheilffyrdd. Ar y cyd, mae'r BTPA yn atebol trwy'r Cadeirydd i Weinidogion yr Adran Drafnidiaeth am gyflawni'r cyfrifoldebau a nodir yn y ddeddfwriaeth. Bydd prif gyfrifoldeb aelodau yn dod o dan waith y BTPA yn gyffredinol yn hytrach nag fel cynrychiolydd unrhyw ardal o le maent yn dod.

**Bydd Aelod "Yr Alban" yn cadeirio Pwyllgor Plismona Rheilffyrdd yr Alban, sy'n is-bwyllgor o'r BTPA ac sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn Glasgow. Byddai'n ddymunol felly pe bai ymgeiswyr o'r Alban yn gallu dangos profiad wrth gadeirio cyfarfodydd. Bydd angen dangos dealltwriaeth o dirwedd wleidyddol yr Alban hefyd.**

Gweler isod prif gyfrifoldebau pob Aelod:

- Cynnal ar y cyd holl ofynion statudol a phenderfynol lleol Aelod BTPA, gan gynnwys cymryd rhan mewn llunio polisi, gwneud penderfyniadau a chyfrannu at waith y BTPA ynglŷn â phenderfynu ar gyllideb a'r taliadau fydd angen cael eu gwneud i'r diwydiant rheilffyrdd, pennu blaenoriaethau plismona, cytuno ar gynllun plismona rheilffyrdd blynyddol, cynllun gwerth gorau a materion eraill.
- Cyfrannu'n effeithiol at drafodaethau gyda'r Awdurdod i gyd a'i bwyllgorau.
- Archwilio, herio a chefnogi cyflawni gweithredol a goblygiadau masnachol cynigion polisi, prosiectau mawr a rhaglenni, materion strategol a sefydliadol yn BTP.
- Gweithio gyda Thîm Gweithredol BTPA i graffu ar wybodaeth reoli BTP i sicrhau cyflawni'r Strategaeth, Cynlluniau Plismona a phortffolio trawsnewid, gweithredu fel cyswllt i gefnogi a herio ei weithredu'n llwyddiannus, gan gynnwys meysydd megis sicrhau gwerth am arian.



## Department for Transport

- Bod yn rhan o waith BTPA fel y cyfarwyddwyd gan y Cadeirydd, gan gynnwys aelodaeth unrhyw bwyllgorau, paneli neu weithgorau sy'n cael eu sefydlu gan BTPA neu'n ymgymryd â rôl arweiniol mewn agweddau ar waith os bydd y Cadeirydd yn penderfynu bod hynny'n ffordd effeithiol o gynnal busnes yr Awdurdod.
- Cymryd diddordeb yng ngwaith rhanbarthol BTP, fel y cytunwyd gan y Cadeirydd; wrth wneud hynny, mae Aelodau'n darparu her adeiladol gref ac effeithiol, yn ogystal â chefnogaeth.
- Cydymffurfio â'r holl godau ymddygiad perthnasol a chynnal safonau ymddygiad a moeseg uchaf, a sicrhau bod BTPA yn gweithredu o fewn y fframwaith deddfwriaethol, polisi ac adnoddau a gytunwyd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae disgwyl i'r aelodau gadw at ysbryd Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus yn Atodiad A.
- Sicrhau bod gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ddiweddaraf gennych o faterion sy'n effeithio ar blismona'r rhwydwaith rheilffyrdd.
- Cymryd rhan mewn trefniadau ymgynghori a sefydlir gan BTPA ac yn cymryd rhan weithredol mewn cyfathrebu a thrafodaeth o fewn y diwydiant rheilffyrdd, Llywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru, teithwyr a rhanddeiliaid eraill pan fo angen.
- Bod yn gynrychiolydd effeithiol BTPA gyda rhanddeiliaid yn ôl y gofyn gan y Cadeirydd.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal mewn gwaith i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, yn fewnol o fewn y BTPA a BTP ac wrth ddarparu gwasanaethau plismona.
- Mynychu cynadleddau/seminarau/sesiynau briffio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol os byddwch yn cael eich dewis gan BTPA.
- Cymryd rhan mewn archwiliadau ac archwiliadau BTP a BTPA, fel sy'n briodol.
- Cynorthwyo â'r Cadeirydd o ran cyfeiriad strategol BTPA a'r cynlluniau busnes corfforaethol.
- Cefnogi'r Cadeirydd wrth oruchwylio BTP yn gyffredinol, gan gynnwys sicrhau ei fod â holl gyfrifoldeb amdano.

### **Meini prawf hanfodol i'r Dirprwy Gadeirydd a'r holl Aelodau:**

- Barn strategol gadarn gyda'r gallu i wneud penderfyniadau anodd a rheoli sefyllfaoedd cymhleth gyda gradd uchel o onestrwydd personol.





## Department for Transport

- Gallu profedig i herio mewn modd adeiladol, gan sicrhau canlyniadau clir ac arwain gwerth am arian.
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol rhagorol gyda gallu profedig o ymgysylltu'n effeithiol â gwahanol grwpiau rhanddeiliaid.
- Gallu dangos dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol ehangach lle mae BTP yn ei weithredu a materion allweddol cyfredol.

Er **nad yw'n ofyniad hanfodol** ar gyfer gwneud cais i adlewyrchu pwysigrwydd beirniadol o sicrhau gwerth am arian a hyrwyddo effeithlonrwydd, byddem hefyd yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n gallu dangos sgiliau a phrofiad ariannol cryf, yn enwedig mewn lleoliad sefydliadol cymhleth.

### **Yn ogystal â'r meini prawf hanfodol ar gyfer pob Aelod uchod, mae'n hanfodol bod ymgeiswyr sy'n ymgeisio am rôl Aelod yr Alban yn dangos y canlynol:**

- Gwybodaeth a phrofiad o fuddiannau pobl yn yr Alban mewn perthynas â'r rheilffyrdd;
- Dealltwriaeth o dirwedd wleidyddol yr Alban.

### **Yn ogystal â'r meini prawf hanfodol i bob Aelod uchod, mae'n hanfodol bod ymgeiswyr sy'n ymgeisio am rôl Aelod Cymru yn dangos y canlynol:**

- Gwybodaeth a phrofiad o fuddiannau pobl yng Nghymru mewn perthynas â'r rheilffyrdd.

### **Yn ogystal â'r meini prawf hanfodol ar gyfer pob Aelod uchod, rhaid i ymgeiswyr sy'n gwneud cais am un o'r rolau Aelod (hyd at bedwar) ddangos o leiaf un o'r canlynol:**

- Gwybodaeth a phrofiad o'r cwmnïau sy'n gweithredu'r trenau a'r rheilffyrdd;
- Gwybodaeth a phrofiad o'r staff sy'n gweithio i'r gweithredwyr hynny;
- Gwybodaeth a phrofiad o'r rhai sy'n teithio ar y rheilffordd;
- Gwybodaeth a phrofiad o blismona.

Byddwn yn asesu ymgeiswyr ar gyfer y rôl yn erbyn y meini prawf uchod. **Wrth anfon eich cais atom drwy e-bost, nodwch pa un o'r rolau yr ydych chi'n gwneud cais amdanynt yn y pwnc e-bost.** Os ydych yn meddwl bod gyda chi sgiliau a phrofiad ariannol cryf, cofiwch nodi hynny yn benodol.



## Sut i wneud cais

Os ydych am wneud cais am y swyddi hyn, anfonwch y dogfennau canlynol atom **erbyn hanner nos ddydd Sul 26 Mawrth 2023**. Ni fydd unrhyw geisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau, neu sy'n colli unrhyw un o'r dogfennau canlynol, yn cael eu derbyn.

1. **CV neu wybodaeth fywgraffyddol gyfatebol** (uchafswm dwy ochr A4, isafswm ffont 12) yn nodi hanes eich gyrfa ac yn cynnwys manylion unrhyw gymwysterau proffesiynol.
2. **Datganiad cefnogi byr** (uchafswm dwy ochr A4, isafswm ffont 12) sy'n nodi sut rydych chi'n bodloni'r meini prawf hanfodol – gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfeirio at gynnwys y ddogfen hon a darparu enghreifftiau penodol.
3. **Ffurflen Categori/Meini Prawf** wedi'i chwblhau i nodi pa un (neu fwy) o'r rolau yr ydych chi'n gwneud cais amdano h.y. rôl gweithredwr y rheilffordd, rôl staff y rheilffordd, rôl Aelod yr Alban, rôl Aelod Cymru, rôl teithwyr y rheilffordd, rôl Dirprwy Gadeirydd neu'r rôl plismona, a pha meini prawf yr ydych chi'n eu bodloni.
4. Yn ogystal, llenwch **Ffurflen Monitro a Thystiolaeth Ategol** a'i dychwelyd atom drwy e-bost.

Dylid anfon ceisiadau atom drwy e-bost at [DfTPATApplications@dft.gov.uk](mailto:DfTPATApplications@dft.gov.uk). Os hoffech gyflwyno dogfennau 1 a 2 uchod mewn fformat arall, neu os oes gennych ymholiadau eraill am y rôl hon, cysylltwch â Thîm Penodiadau Cyhoeddus yr Adran Drafnidiaeth yn [DfTPATApplications@dft.gov.uk](mailto:DfTPATApplications@dft.gov.uk).



## Amserlen Awgrymedig

Sylwch fod y dyddiadau hyn ond yn awgrymedig ar hyn o bryd a gallai'r dyddiadau newid. Rhowch wybod os nad yw'r dyddiadau hyn yn gyfleus i chi.

|                                                   |                                  |
|---------------------------------------------------|----------------------------------|
| Dyddiad cau hysbyseb                              | Dydd Sul 26 Mai 2023 (canol nos) |
| Cyfarfod Tynnu Rhestr Fer                         | Ebrill 2023                      |
| Cyfweliadau Panel                                 | Mai 2023                         |
| Cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol (os bydd angen) | I'w gadarnhau                    |

## Proses Ddethol

Mae'r rôl hon yn cael ei phenodi yn unol â'r Cod Llywodraethu (Ionawr 2017)<sup>1</sup>, sy'n nodi fframwaith rheoleiddio ar gyfer prosesau penodiadau cyhoeddus. Mae'r Côd yn seiliedig ar dair egwyddor graidd – teilyngdod, didwylledd, a thegwch.

Gweler isod enwau'r panel dethol ar gyfer y penodiad hwn:

- Oliver Mulvey (Yr Adran Drafnidiaeth) – Cadeirydd y Panel;
- Ron Barclay-Smith (Cadeirydd BTPA);
- Jacqui Francis (Aelod Annibynnol o'r Panel);
- Don McGillivray (Llywodraeth yr Alban) – *ar gyfer penodiad Aelod o'r Alban yn unig.*

---

<https://www.gov.uk/government/publications/governance-code-for-public-appointments>



## Department for Transport

Cynhelir Gweminar yn ystod y cyfnod hysbysebu (dyddiad i'w gadarnhau) i egluro mwy am y rolau a'r rhinweddau penodol sydd eu hangen. Ewch i wefan BTPA [www.btpa.police.uk](http://www.btpa.police.uk) am wybodaeth am sut i gael mynediad at hyn. **Cofiwch edrych ar dudalen Twitter Penodiadau Cyhoeddus yr Adran Drafnidiaeth (@ApptsDft), a thudalen Twitter Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (@BTPAuthority) am y newyddion diweddaraf.**

Bydd Tîm Penodiadau Cyhoeddus yr Adran Drafnidiaeth yn cydnabod eich cais ac yn eich diweddarau am ddatblygiadau eich cais.

Yn y cyfarfod tynnu rhestr fer bydd y panel dethol yn asesu pob cais yn erbyn y meini prawf hanfodol ac yn penderfynu pwy fydd yn cael gwahoddiad am gyfweiliad.

Mae disgwyl i gyfweiliadau gael eu cynnal yng nghanol Llundain neu yng Nghaeredin ar gyfer swydd yr Alban a byddant yn para rhwng 45 a 60 munud. Bydd mwy o fanylion am drefn y cyfweiliad yn cael eu rhoi i chi ymlaen llaw. Mae cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn cael eu hannog ond os oes angen cyfweiliad rhithiol arnoch chi rhowch wybod i'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus.

Yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Weinidog sy'n cael penderfynu am benodi'r rolau hyn (mewn ymgynghoriad â Gweinidogion yr Alban). Efallai y bydd ymgeiswyr posibl yn cael eu gwahodd i gyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol, neu Weinidog Adran Drafnidiaeth arall, cyn iddynt wneud penderfyniad terfynol am y penodiad.

Sylwer: Ni fydd treuliau a gafwyd gan ymgeiswyr yn ystod y broses recriwtio yn cael eu had-dalu ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a dim ond pan gytunwyd ymlaen llaw gyda Thîm Penodiadau Cyhoeddus yr Adran Drafnidiaeth.

Gallwch ddisgwyl i'r broses recriwtio gymryd tua 6 mis ond bydd ymgeiswyr yn cael eu diweddarau am ddatblygiadau eu cais.

## Gwybodaeth Ychwanegol

### Cyfnod penodiad

- Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn eich penodi fel Aelod BTPA.
- Bydd y penodiad am gyfnod cychwynnol o hyd at 4 blynedd, gyda'r opsiwn o gael ail benodiad am hyd at 4 blynedd arall drwy gytundeb ar y cyd.
- Dylid nodi mai penodiad cyhoeddus yw'r swydd hon; nid yw Aelodau BTPA yn weithwyr y Goron na'r Adran Drafnidiaeth. Nid yw penodiadau o'r fath fel arfer yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cyfraith cyflogaeth.
- Gellir terfynu penodiadau cyn i'r cyfnod penodi ddod i ben.



## Ymrwymiad amser

Mae'r ymrwymiad amser yn **50 diwrnod y flwyddyn i'r Dirprwy Gadeirydd a 30 diwrnod y flwyddyn i Aelodau**. Mae'r rôl yn cynnwys mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a gweithgareddau ymgysylltu eraill naill ai yn bersonol neu o bell, gan ddarparu cyngor arbenigol yn ôl y galw, amser paratoi, teithio, a gweithio y tu allan i gyfarfodydd. Nid yw amser teithio wedi'i gynnwys yn yr ymrwymiad amser.

## Cydnabyddiaeth ariannol

- **Mae'r cydnabyddiaeth ariannol i'r Dirprwy Gadeirydd yn £25 mil y flwyddyn ar gyfer presenoldeb 50 diwrnod a £15 mil i aelod ar gyfer presenoldeb hyd at 30 diwrnod y flwyddyn.**
- Mae tâl yn drethadwy drwy'r gyflogres, ond nid yw'r penodiad yn bensiynadwy.
- Gall aelodau hawlio ad-daliad am gostau teithio a chynhaliaeth rhesymol a gytunwyd ar gyfraddau a osodwyd yn ganolog gan yr Adran Drafnidiaeth a'u cynnwys ym Mholisi Treuliau BTPA.
- **Dylai ymgeiswyr nodi na all yr ymgeiswyr llwyddiannus gael eu talu am y rôl hon os ydynt yn cael eu talu am rôl sector gyhoeddus llawn amser sydd eisoes yn bodoli.** Cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn yn benodol.

## Lleoliad

Mae'r rolau wedi'u lleoli ledled Cymru, Lloegr a'r Alban gyda'r angen i deithio'n lleol ac yn genedlaethol ar gyfer gweithgareddau cyfarfodydd ac ymgysylltu.

## Argaeledd

Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau'r rôl ym **mis Gorffennaf 2023**, yn amodol ar gwblhau gwiriadau cyn penodi, gwiriad diogelwch a gwiriad lefel rheoli'r heddlu yn llwyddiannus.

## Gwiriad diogelwch

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gael neu fod yn barod i gael Gwiriad Rheoli. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau cyn penodi ar fewnfudo ac euogfarnau troseddol. Mae fel arfer yn cymryd rhwng 2-4 wythnos i gael gwiriad heddlu. Bydd y rôl yn cael ei chynnig ar sail amodol nes bod yr ymgeisydd llwyddiannus wedi pasio pob gwiriad.



## Monitro cyfleoedd cyfartal

Rydyn ni'n credu, mewn gweithle amrywiol a chynhwysol, lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi, bod cydweithwyr yn fwy brwdfrydig, a'u bod yn perfformio'n well a'u bod yn fwy ymroddedig i'r tîm. Mae'r BTPA a'r Adran Drafnidiaeth yn croesawu pob ymgeisydd, beth bynnag fo'u rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, cefndir cymdeithasol, credoau crefyddol, ethnigrwydd, neu oedran.

Fel rhan o'r broses ymgeisio, gofynnwn i ymgeiswyr gwblhau gwybodaeth monitro cyfleoedd cyfartal yn y **ffurflen monitro a thystiolaeth** ategol ar wahân. Bydd hyn yn ein helpu i fonitro penderfyniadau dethol er mwyn asesu a yw cyfle cyfartal yn cael ei gyflawni. Bydd y rhan hon o'r ffurflen yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn cael ei defnyddio ar gyfer dibenion ystadegol yn unig. Ni fydd y ffurflen yn cael ei thrin fel rhan o'ch cais.

## Hyderus o ran Anabledd

Mae'r Adran Drafnidiaeth yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo amrywiaeth ac yn ymroddedig i gydraddoldeb cyfleoedd i bawb ac i benodi pobl anabl. **Byddwn yn dewis yr ymgeiswyr anabl sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl orau. Diffinir 'bodloni gorau' fel ymgeisydd sy'n gallu dangos enghreifftiau cryf o'r holl feini prawf hanfodol.**

Er mwyn sicrhau cyfweiliad i bob ymgeisydd anabl ([fel y diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#)) sy'n bodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y rôl ac sy'n dymuno cael eu hystyried yn anabl o dan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd, bydd angen i ymgeiswyr ddatgan eu hanabledd a'u bod am gael eu hystyried yn anabl o dan y Cynllun.

Beth yw diffiniad anabledd?

I fod yn gymwys i gael eich ystyried dan y Cynllun, rhaid i chi gael eich ystyried yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi gael neu wedi cael yn ystod y 12 mis diwethaf, nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol hirdymor ar eich gallu i gynnal gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys y rhai y mae eu hanabledd wedi para, neu'n debygol o bara, am 12 mis, neu os yw'r anabledd neu'r cyflwr yn debygol o fynd yn waeth neu ddigwydd eto.

Does dim rhaid i chi fod wedi cofrestru fel person anabl i wneud cais o dan y cynllun hwn.





## Cenedligrwydd

Nid yw'r swydd hon yn swydd gadw ac felly mae'n agored i Ddinasyddion y DU, Dinasyddion Prydain Dramor, Pobl Warchodedig Prydain, Dinasyddion y Cymanwlad, Dinasyddion yr AEE a rhai aelodau o'r teulu nad ydynt yn AEE a Dinasyddion y Swistir o dan Gytundeb yr UE Swistir. Ni ddylai fod cyfyngiad cyflogaeth na therfyn amser ar eich arhosiad a ganiateir yn y DU. Ni fydd gofyn i chi ddangos tystiolaeth i gadarnhau eich cymhwysedd yn y cam ymgeisio, ond bydd yn ofynnol i chi wneud hynny pe bai chi'n cael eich gwahodd i gyfweiliad gyda'r panel. Noder na fydd unrhyw un sydd heb breswyllo yn y DU yn ystod y 5 mlynedd diwethaf yn pasio gofynion gwirio'r heddlu.

## Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i "Codau Ymarfer" y Corff Adolygu. Bydd disgwyl i ymgeiswyr gadw at "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus" a nodir gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn **Atodiad A**.

## Unigolion nad yw'n gymwys i gael penodiad

Mae amgylchiadau lle na fydd unigolyn yn gymwys i gael ei benodi. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Pobl gydag euogfarnau troseddol sydd angen cael eu datgan.
- Pobl o dan 21 oed.
- Pobl sy'n swyddogion neu'n weithwyr Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu neu Awdurdod Heddlu'r Alban.
- Pobl sy'n swyddog neu weithiwr BTPA.
- Pobl sy'n gweithio fel swyddogion heddlu.
- Pobl sy'n destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn dros dro.
- Mewn rhai amgylchiadau, y rhai sydd wedi cael cyfnod blaenorol o benodiad ei derfynu.
- Unrhyw un sydd o dan orchymyn anghymwys o dan Ddeddf Anghymwys Cyfarwyddwyr y Cwmni 1986.
- Unrhyw un sydd wedi'i dynnu o fod yn ymddiriedolwr elusen; a
- Rolau a restrir o dan [Deddf Anghymwys Ty'r Cyffredin 1975](#) neu Ddeddf Gweinyddiaethau Datganoledig.



## Cofrestru buddiannau

Pwrpas y darpariaethau hyn yw osgoi unrhyw berygl y bydd aelodau'r Bwrdd yn cael eu dylanwadu, neu'n ymddangos eu bod yn cael eu dylanwadu, gan eu buddiannau preifat wrth arfer eu dyletswyddau cyhoeddus.

Mae penodiadau cyhoeddus yn gofyn am y safonau uchaf o weddustra, sy'n cynnwys didueddrwydd, uniondeb, a gwrthrychedd, mewn perthynas ag arweiniad cronfeydd cyhoeddus a goruchwyllo a rheoli'r holl weithgareddau cysylltiedig. Mae hyn yn golygu y dylid datgan unrhyw ddiddordeb preifat, gwirfoddol, elusennol, neu wleidyddol a allai fod yn berthnasol i waith y corff dan sylw. Mae'n bwysig, felly, eich bod yn ystyried eich amgylchiadau wrth wneud cais am benodiad cyhoeddus a nodi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl, boed yn wir neu'n cael eu gweld yn wir.

Mae gofyniad i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl sydd gennych wrth gael eich penodi i'r Bwrdd yn y **ffurflen fonitro a chefnogi tystiolaeth** atodol. Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosib gwirioneddol yn cael eu harchwilio'n llawn gan y Panel yn ystod y cyfweiliad.

## Gweithgarwch gwleidyddol

Bydd angen i aelodau ddangos didueddrwydd gwleidyddol yn ystod eu cyfnod ar y Bwrdd ac mae'n rhaid iddynt ddatgan unrhyw weithgaredd plaid-wleidyddol y byddant yn ei wneud yng nghyfnod eu penodiad. Mae'n rhaid bod yr adrannau sy'n penodi gyhoeddi manylion gweithgaredd gwleidyddol datganedig yr ymgeisydd llwyddiannus pan fydd y penodiadau'n cael eu cyhoeddi.

Bydd eich gweithgaredd gwleidyddol yn cael ei gadw ar wahân i'ch cais a bydd y Panel ond yn cael ei weld cyn y cyfweiliad – gall y Panel ar y cam hwnnw archwilio unrhyw botensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau gydag ymgeiswyr. Deallwn fod yn bosib y gallai fod rhan o weithgareddau gwleidyddol wedi rhoi sgiliau perthnasol i chi, gan gynnwys profiad a gafwyd o waith pwyllgor, gwneud penderfyniadau ar y cyd, datrys gwrthdaro a siarad cyhoeddus. Os ydych chi, felly, wedi cael y fath brofiad a'ch bod yn ei ystyried yn berthnasol i'ch cais ar gyfer y swydd hon, gallwch ei gynnwys ar wahân ym mhrif ran eich cais.

## Diwydrwydd Dyladwy

Bydd diwydrwydd dyladwy yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ymgeisio. Yn ogystal â gwiriadau a wnaed ynghylch yr uchod, bydd chwiliadau'n cael eu cynnal trwy beiriannau chwilio'r rhyngwrdd ac unrhyw gyfrifon cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus. Bydd yn cael ei weld gan y Panel cyn y cyfweiliad – gall y Panel ar y cam hwnnw archwilio unrhyw ganfyddiadau gydag ymgeiswyr.



## Department for Transport

### Diogelu Data

Gweler y ffurflen monitro a thystiolaeth ategol am fanylion am sut rydym yn trin eich data personol.

### Cwynion

Os nad ydych yn gwbl fodlon â'r ffordd yr ymdrinnir â'ch cais ar unrhyw gam yn y broses, gnewch gŵyn yn y lle cyntaf:

Drwy e-bostio: Penodiadau Cyhoeddus Yr Adran Drafnidiaeth  
[DfTPublicAppointments@dft.gov.uk](mailto:DfTPublicAppointments@dft.gov.uk)

Tîm Penodiadau Cyhoeddus  
Cyfranddaliadau a Nawdd Corfforaethol, Yr Adran Drafnidiaeth  
Great Minster House  
33 Horseferry Road  
Llundain, SW1P 4DR

Byddwn yn ymateb i'ch cwyn o fewn 20 diwrnod.

Os nad ydych yn fodlon gyda'r ffordd y mae eich cais wedi cael ei drin o hyd, [cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus](#). Gall y Comisiynydd ymchwilio i gwynion sy'n ymwneud ag Apwyntiadau Cyhoeddus wedi'u rheoleiddio yn unig.



## Atodiad A: Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

Mae egwyddorion bywyd cyhoeddus yn berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio fel deiliad swyddfa gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys pawb sy'n cael eu hethol neu eu penodi i swydd gyhoeddus, yn genedlaethol ac yn lleol, a phob person a benodwyd i weithio yn y gwasanaeth sifil, llywodraeth leol, yr heddlu, y llysoedd a'r gwasanaethau prawf, NDPBs, ac yn y gwasanaethau ieuchyd, addysg, cymdeithasol a gofal. Mae pob deiliad swyddfa gyhoeddus yn weision i'r cyhoedd ac arolygwyr adnoddau cyhoeddus. Mae'r egwyddorion hefyd yn berthnasol i bawb mewn sectorau eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

### Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent weithredu er mwyn cael budd ariannol neu arall iddynt eu hunain, eu teulu neu eu cyfeillion.

### Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus roi ei hun dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu arall i unigolion neu fudiadau allanol all geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

### Gwrthrychedd

Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, gosod cytundebau neu argymhell unigolion ar gyfer gwobrau neu fuddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau ar haeddiant.

### Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithgareddau a dylent gynnig eu hunain ar gyfer pa bynnag graffu sydd yn addas i'w swydd.

### Bod yn agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosib ynglŷn â'r penderfyniadau y maent yn eu cymryd a'u gweithgareddau. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a chyfyngu ar y wybodaeth dim ond pan mae'r budd ehangach cyhoeddus yn amlwg yn galw am hynny.

### Gonestrwydd

Mae gan ddeiliaid swyddi cyhoeddus ddyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud a'u dyletswyddau cyhoeddus ac i gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n gwarchod y budd cyhoeddus.



## Department for Transport

### **Arweinyddiaeth**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi yr egwyddorion hyn drwy arweiniad ac esiaml.